I S - D D E D D F W R I A E T H

# LC23-02

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *14 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 66(4) a (5), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 14 Ionawr 2023 ond maent yn cael effaith o 1 Ebrill 2022 ymlaen(**2**).

### Diwygiadau i'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Personol

**2.** Mae'r Cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Mae adran 66(5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn caniatáu effaith ôl-weithredol y Cyfarwyddiadau a roddir o dan adran 60 o'r Ddeddf honno ar yr amod nad yw darpariaeth o'r fath yn niweidiol i'r personau y mae'n ymwneud â'u tâl.

ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Personol(**1**), a ddaeth i rym ar 24 Ebrill 2009, wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygio adran 2**

**3.** Yn adran 2 (gwerthoedd cytundebau blynyddol wedi eu negodi), yn lle paragraff 2.10 rhodder—

> "2.10 The percentage determined by the Welsh Ministers for the financial year commencing on 1 April 2022 is 4.5%."

**Diwygio adran 7**

**4.** Mae adran 7 (taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant galwedigaethol) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 7.2(c) (cymhwystra ar gyfer taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant galwedigaethol), yn lle "£2,865" rhodder "£2,994";

(b) ym mharagraff 7.4(c) (ceisiadau am daliadau o dan yr adran hon), yn lle "£2,865" rhodder "£2,994";

(c) ym mharagraff 7.5 (taliadau hyfforddiant galwedigaethol sydd i'w gwneud)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£952" rhodder "£995";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£2,865" rhodder "£2,994"; a

(iii) yn is-baragraff (d), yn lle "£5,640" rhodder "£5,894".

**Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.**



**Dyddiad: 13 Ionawr 2023**

(**1**) 2009 Rhif 17. Diwygiwyd gan 2010 Rhif 21, 2011 Rhif 34, 2012 Rhif 26, 2013 Rhif 10, 2014 Rhif 28, 2015 Rhif 24, 2016 Rhif 27, 2016 Rhif 32, 2017 Rhif 20, 2018 Rhif 72, 2019 Rhif 43, 2020 Rhif 67 a 2021 Rhif 22, LC21-22, LC21-84 a LC21-89.